# A allech chi fod yn Elidyr Trustee?

Elidyr
Communities Trust




## Gweithiwch gyda ni i greu bywydau llawn ystyr a phwrpas

"Mae'r gymuned wledig hon wedi rhoi i fy mab, sydd ag anabledd dysgu, fywyd llawn rhyddid a phrofiadau na allai erioed fod wedi'u cael gartref."



# Am Ymddiriedolaeth Cymunedau Elidyr

Mae Ymddiriedolaeth Cymunedau Elidyr (Elidyr) yn elusen flaenllaw yn y sector ac yn un arobryn sydd wedi bod yn cefnogi pobl ag anghenion dysgu ychwanegol a/neu anableddau ers dros 50 mlynedd. Mae ein darpariaeth yn trawsnewid bywydau, gan helpu'r rhai sydd yn ein gofal i gyfathrebu, meithrin sgiliau, dod o hyd i fwy o annibyniaeth a chael hwyl.

Rydym yn darparu llwybr sefydledig i symud o lencyndod i fod yn oedolyn drwy addysg uwch breswyl arbenigol ac ymlaen i raglen byw yn y gymuned o ansawdd uchel. Mae ein dysgwyr a'n preswylwyr yn dysgu mynegi eu barn eu hunain, byw mor annibynnol â phosibl drwy ddatblygu sgiliau bywyd hanfodol mewn amgylchedd cefnogol a diogel, a helpu'r elusen i wthio'r ffiniau o ran yr hyn sy'n bosibl.

"Mae Elidyr yn well na'n cartref ni.

Pan fyddwn yn ymweld, rydym yn anadlu'r cariad a'r gefnogaeth y mae'n ei gael. Rydym wedi ein llethu wrth ei wylio'n cerdded o gwmpas yn ysgwyd dwylo â phobl, yn cael ei gyfarch. Dw i wrth fy modd, dw i wrth fy modd, dw i wrth fy modd."

# Yr hyn a gynigiwn



Ar ein prif safle yn Rhandirmwyn rydym yn rhedeg ac yn rheoli coleg addysg bellach preswyl arbenigol, *Coleg Elidyr*, ochr yn ochr â rhaglen preswylio yn y gymuned, Inclusive Lives, sy'n cynnig gweithgareddau byw a gwaith hirdymor. Rydym hefyd yn cynnig byw preswyl ar ffurf deuluol yn Garnllwyd Barns yn Llancarfan ac yn Victoria House yn Llangadog.

Derbyniodd *Coleg Elidyr* adroddiad arolygu Estyn eithriadol yn 2025, heb unrhyw argymhellion penodol ar gyfer gwelliant a phedwar maes "spotlight" ar gyfer agweddau rhagorol ar y ddarpariaeth, gan ei osod ar wahân i bob coleg addysg bellach arbenigol arall yng Nghymru.

Mae llawer o'r bobl rydym yn eu cefnogi yn pontio o lencyndod i fod yn oedolyn. Mae'r newid hwn mewn bywyd yn fwy arwyddocaol i bobl ag anghenion dysgu ychwanegol a/neu anableddau a'u teuluoedd, a gall fod yn gyfnod o bryder a her mawr. Drwy gydol y broses hon rydym yn cefnogi ein dysgwyr a'n preswylwyr i ehangu eu gorwelion a byw'r bywydau mwyaf llawn y gallant.



"Mae M yn cerdded o gwmpas fel dyn ar genhadaeth yn hytrach na llusgo o gwmpas. Ein disgwyliad oedd y byddai M yn dod i ben mewn byw â chymorth – yn eistedd mewn cornel yn gwrando ar gerddoriaeth a neb yn talu sylw iddo, oherwydd nid oes ganddo hyder i fynnu ei hawl. Nawr rydym yn hyderus y bydd ganddo fywyd hapus, llawn boddhad gyda llawer o weithgaredd."

Rhiant



# Rôl Bwrdd Ymddiriedolwyr Elidyr

Mae Elidyr yn elusen gofrestredig a chwmni cyfyngedig trwy warant sy'n cael ei llywodraethu gan Fwrdd Ymddiriedolwyr, y mae gan nifer ohonynt brofiad byw o aelod o'r teulu ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r gwaith o reoli'r elusen o ddydd i ddydd yn nwylo ein Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain.

Rydym yn darparu cyfleoedd sy'n newid bywydau ac sy'n drawsnewidiol fel y gall ein dysgwyr a'n trigolion fyw bywydau llawn ac annibynnol, cyfrannu at eu cymunedau, a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.



- Chief Executive
  - CFO & Deputy Chief Executive
  - Head of Development
  - Director of Operations
  - Service Manager
  - Director of Provision

## A allech chi ein helpu i lunio dyfodol mwy disglair i fwy o bobl ag anawsterau dysgu a/neu anableddau?



"Mae hwn yn elusen anhygoel ac mae'n fraint wirioneddol i fod yn rhan o gymuned mor gyfoethog a ffyniannus. Mae'r elusen yn rhoi gwerth a phwyslais mawr ar greu ystyr a phwrpas ym mywydau pobl, sy'n ei gwneud yn sefydliad arbennig iawn i fod yn rhan ohono. Rydym hefyd yn gosod ein golygon ar dwf ac ehangu i sicrhau y gall cymaint o bobl â phosibl elwa ar yr hyn a gynigiwn – mae'n amser gwych i ymuno fel Ymddiriedolwr."

James Slater, Prif Weithredwr

# Ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol

Mae gennym weledigaeth hirdymor i ymestyn ein darpariaeth a'n gwasanaethau y tu hwnt i'n safleoedd presennol, gan gynnwys gwasanaethau dydd newydd (addysgol ac adloniadol) mewn lleoliadau mwy hygyrch, a darpariaeth breswyl ychwanegol i ategu ein gwasanaethau dydd newydd.

Mae prif incwm yr elusen yn deillio o ffioedd a dderbynnir yn gyfnewid am wasanaethau a ddarperir i'r dysgwyr addysgol sy'n mynychu ein darpariaeth FE arbenigol, *Coleg Elidyr*, neu'r trigolion sydd â lleoliadau hirdymor ar ein rhaglen Inclusive Lives.

## Yn ogystal, yn 2025 fe wnaethom greu tîm codi arian newydd i helpu i wireddu tri nod hanfodol:

- Sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yr elusen
- Codi arian ychwanegol i gynnal a thyfu ein gweithrediadau a'n gwasanaethau presennol
- Paratoi'r elusen i fodloni newidiadau mewn cytundebau cyllido.

A oes gennych y sgiliau a'r profiad i gefnogi ein gweledigaeth?



# Sgiliau a phrofiad dymunol

Byddwch yn dod â set o sgiliau a phrofiad sy'n cyfrannu at lywodraethu effeithiol ac arweinyddiaeth strategol yr elusen. Anogir pob ymgeisydd posibl i wneud cais.

Byddem wrth ein bodd yn cael gwybod mwy am sut y gall eich set sgiliau unigryw fynd â'n helusen i'r lefel nesaf. Gwyddom fod angen unigolion arnom sydd â phrofiad yn y meysydd canlynol, er ein bod yn gwbl agored i ymgeiswyr sydd â sgiliau busnes a thechnegol ehangach.

## Cyllid a chyfrifyddu

- **Gwybodaeth am egwyddorion cyllid,** gan gynnwys cyllidebu, adroddiadau ariannol, a chronfeydd cyfyngedig/digyfnewid.
- **Profiad o oruchwylio cyllid,** megis monitro perfformiad, dehongli cyfrifon rheoli, ac asesu risg ariannol.
- **Dealltwriaeth o ofynion statudol,** gan gynnwys rheolau cyfrifyddu elusennau, rhwymedigaethau archwilio, a chydymffurfio â chanllawiau ariannol y Comisiwn Elusennau, er nad yw'n hanfodol, byddai'n ddefnyddiol.

## Cydymffurfiaeth gyfreithiol

- **Dealltwriaeth o gyfraith elusennau a llywodraethu,** gan gynnwys dyletswyddau o dan y Comisiwn Elusennau a gofynion diogelu.
- **Cynefindra â fframweithiau rheoleiddiol** sy'n berthnasol i weithrediadau'r elusen (e.e. gofal, addysg, diogelu data).
- **Y gallu i nodi risgiau cyfreithiol a chefnogi cydymffurfiaeth,** gan gynnwys adolygu contractau, polisïau, a chytundebau partneriaeth.








## Adnoddau dynol

- **Profiad mewn recriwtio, datblygu staff,** a rheoli perfformiad mewn lleoliad dielw neu debyg.
- **Gwybodaeth am gyfraith cyflogaeth ac arfer gorau AD,** gan gynnwys perthnasoedd â gweithwyr a goruchwylio polisïau.
- **Y gallu i gefnogi diwylliant sefydliadol cadarnhaol,** gan gynnwys lles staff a datblygiad proffesiynol parhaus.

## Arweinyddiaeth elusennol

- **Profiad mewn arweinyddiaeth strategol,** gan gynnwys gosod gweledigaeth, cyfeiriad a blaenoriaethau hirdymor ar gyfer sefydliad.
- **Dealltwriaeth o lywodraethu a goruchwyliaeth,** gan sicrhau atebolrwydd, gwneud penderfyniadau effeithiol, ac aliniad â chenhadaeth yr elusen.
- **Y gallu i gefnogi uwch arweinwyr,** gan gynnig her, cyngor a chraffu adeiladol i'r tîm gweithredol.



*A allwch chi ein helpu i drawsnewid disgwyliadau pobl a chefnogi bywydau sy'n llawn ystyr a phwrpas?*

# Ymunwch â'n Bwrdd Ymddiriedolwyr

Os hoffech ein helpu i wneud gwahaniaeth ac os oes gennych y sgiliau a'r profiad i gyfrannu at ein hamcanion, rydym yn eich annog i wneud cais am swydd ar ein Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Bydd eich cyfraniad yn helpu i lunio dyfodol Elidyr Communities Trust ac yn cyfoethogi eich taith bersonol a phroffesiynol eich hun.

*"Mae bod yn Ymddiriedolwr yn Elidyr Communities Trust wedi bod yn brofiad boddhaus. Mae wedi bod yn llawenydd gweld yr elusen yn tyfu ac yn cyflawni llawer o'i huchelgeisiau heriol yn ystod y blynyddoedd yr wyf wedi bod yn gysylltiedig."*

Cyn Ymddiriedolwr




## Rydym yn cynnig

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ac fe wahoddir pob ymddiriedolwr i ymuno ag un o ddau is-bwyllgor, sy'n goruchwylio datblygiad busnes a darpariaeth. Caiff pob ymddiriedolwr hefyd ei aseinio i aliniad sefydliadol ar gyfer maes strategol o'r elusen, e.e. addysg, codi arian neu gyllid, ac mae'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r tîm arwain. Telir treuliau teithio rhesymol.

## I ymgeisio

I wneud cais, anfonwch CV a llythyr eglurhaol yn manylu pam mae gennych ddiddordeb yn y rôl a'ch profiad perthnasol at Gadeirydd y Bwrdd, Vicky Davies, yn vickydavies@elidyrct.ac.uk.

**Elidyr Communities Trust**
Rhandirmwyn, Llanymddyfri, SA20 0NL
Rhif Elusen: 502742.
Rhif y Cwmni: 1215997.

01550 760400
www.elidyrct.ac.uk
info@elidyrct.ac.uk